# Cyngor Cymuned Llanddona

## Cynllun Hyfforddiant

O dan Adran 67 deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mae gan y Cyngor Cymuned ddyletswydd i ystyried hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr a staff ac i gyhoeddi'r cynlluniau hyfforddiant hyn.

Pwrpas y cynllun hyfforddi yw sicrhau bod Cynghorwyr a'r Clerc yn meddu ar y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd ei angen arnynt er mwyn iddynt hwy a'r Cyngor yn ei gyfanrwydd I weithredu'n effeithiol.

Nid oes angen i bob Cynghorydd a Chlerc fod wedi derbyn yr un hyfforddiant a datblygu yr un arbenigedd.

Mae Cyngor Cymuned Llanddona wedi cytuno mai'r meysydd craidd derbyniol i feddu ar sgiliau a dealltwriaeth digonol yw:

Modiwl ar gyfer Cynghorwyr newydd;

- Y Cod Ymddygiad
- Rheolaeth ariannol a llywodraethu.

Bydd pob Cynghorydd yn cael cynnig y cyfle i fynychu cyfleoedd hyfforddi a datblygu perthnasol. Mae Un Llais Cymru yn darparu gwybodaeth yn fisol o'r cyrsiau achrededig (accredited) ac mae'r rhestr cyrsiau yn cael ei diweddaru a'i rannu gyda'r aelodau yn rheoliadd. Yn gyfredol, mae'r cyrsiau yn cael eu cynnig ar lein yn unig drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ychwanegol mae pob aelod yn cael gwybodaeth ar sut i gael mynediad at ddogfennau perthnasol e.e. Cyrsiau perthnasol neu dogfennau fel 'Canllaw Cynghorydd Da -Llywodraeth Cymru' ar wahanol wefannau perthnsol.

Bydd y Clerc yn sicrhau bod pob aelod yn arwydd o eu bod wedi derbyn a deall y wybodaeth hon.

Bydd y Cyngor Cymuned yn neilltuo cyllid yn flynyddol er mwyn hyrwyddo a chefnogi mynediad ar gyfer yr aelodau a'r Clerc.

Bydd y Clerc yn gyfrifol am:-

- gylchredeg unrhyw wybodaeth am gyrsiau addas ac yn awgrymu cyrsiau perthnasol i aelodau'r Cyngor
- gadw cofnod o'r cyrsiau a fynychwyd yn flynyddol – Atodiad A
- mapio anghenion/ceisiadau unigol yn rheoliadd – Atodiad B

**ELFENNAU HYFFORDDIANT GORFODOL**:

- Anogaeth a chefnogaeth rheolaidd i bob Cynghorydd fynychu cyrsiau achrededig Un Llais Cymru
- Rholi ystyriaeth briodol i fynychu unrhyw hyfforddiant o ffynonellau eraill amgen i Unllais a fydd o fantais i waith y Cyngor yn ei gyfanrwydd.
- Cynghorwyr newydd i fynychu

Modiwl 1 – Y Cyngor

Modiwl 2 - Y Cynghorydd o fewn blwyddyn i'w hethol

• Pob Cynghorydd i fynychu Modiwl 9 - Cod Ymddygiad Un Llais Cymru

• Cadeirydd newydd y Cyngor i fynychu Modiwl 10 - Sgiliau Cadeirio Un Llais Cymru o fewn 6 mis i'w hethol

• Darparu cefnogaeth ariannol ac ymarferol briodol i'r Clerc, cyrsiau hyfforddiant yn ôl y galw

| Enw | Hyfforddiant | Dyddiad |
|---|---|---|
| Myrddin Roberts | Cod Ymddygiad | 15/10/2019 |
| Martin Hennessey | Cod Ymddygiad | 15/10/2019 |
| Geraint Parry – Clerc | Advanced Finance | 15/11/2020 |
| Geraint Parry – Clerc | Council as an Employer | 09/02/2021 |
| Barbara Williams | Councillor - 3 | 21/02/2023 |
| Geraint Parry – Clerc | Understanding the Law | 25/10/2022 |
| Gwennan Hughes | New Councillor | 15/03/2023 |
| Barbara Williams | Code of Conduct | 19/11/2024 |
| Gwennan Hughes | The Council - 4 | tbc |
| | | |
| | | |
| | | |